# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13eg Chwefror 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dewi W. Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679233** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun y Cyngor 2018-23** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun y Cyngor 2018-23 i’w gyflwyno i’r Cyngor ar y 1af o Fawrth 2018.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys y cynllun a’i fod yn adlewyrchu’r blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod cyn ei gyflwyno i’r Cyngor.

**3. CYFLWYNIAD**

3.1. Dros y misoedd diwethaf mae gwaith wedi’i wneud i baratoi Cynllun y Cyngor fydd yn gosod cyfeiriad i waith y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2018-23.

3.2. Fel rhan o’r broses o lunio’r cynllun cynhaliwyd nifer o sesiynau gweithdy ar gyfer yr holl Aelodau Etholedig yn ystod mis Gorffennaf a Medi. Rhoddwyd cyfle iddynt amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw ar lefel sirol ynghyd â’r ardaloedd y maent yn eu cynrychioli.

3.3. Yn ogystal, bu i aelodau’r Pwyllgorau Craffu adnabod materion yr oeddent hwy o’r farn y dylid eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor i’r dyfodol. Defnyddiwyd y cynnyrch o’r sesiynau ymgynghori hyn i lunio ‘Dogfen Ymgynghorol ar y blaenoriaethau ar gyfer Cynllun y Cyngor 2018-23’ a chymeradwywyd y ddogfen gan y Cabinet ar y 21ain o Dachwedd 2017.

3.4. Yn dilyn cymeradwyo'r ddogfen gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2017 cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 6 wythnos.

3.5. Mae Cynllun y Cyngor yn seiliedig ar y deunyddiau hyn ac yn cynnwys **Cynllun Gwella** a hefyd **Cynlluniau Busnes Adrannau** unigol o fewn y Cyngor. Ceir copi o’r Cynllun yn **Atodiad 1**.

3.6. Mae’r **Cynllun Gwella** yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer y Cyngor ynghyd ag amcanion llesiant (rhain yw ein hamcanion gwella ar gyfer cwrdd â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009) a blaenoriaethau gwella ar gyfer y cyfnod dan sylw. O dan bob blaenoriaeth wella ceir crynodeb o’r hyn y bwriedir ei wneud.

3.7. Ceir disgrifiad o waith dydd i ddydd yr Adrannau o fewn y **Cynlluniau Busnes Adran**. Yn ogystal, ceir disgrifiad manylach o'r hyn y bwriedir ei wneud er mwyn ymateb i'r blaenoriaethau gwella.

3.8. Fe welir bod y blaenoriaethau yr ymgynghorwyd arnynt o fewn y 'Ddogfen Ymgynghorol ar y blaenoriaethau ar gyfer Cynllun y Cyngor 2018-23' yn cael eu cyfarch o fewn y Cynllun. Mae'r materion o bwysigrwydd ar lefel sirol wedi eu hamlygu gyda ffrâm ddu o'u hamgylch tra bod yr ymateb i'r materion a flaenoriaethwyd yn lleol wedi eu hamlygu o fewn ffrâm sydd â chefndir lliw iddi.

3.9. Dylid nodi bod angen gwneud rhywfaint o waith pellach ar ddiwyg y Cynllun a bydd hyn wedi ei wneud erbyn i'r ddogfen gael ei chyflwyno i'r Cyngor LIawn ar y 1af o Fawrth.

## 4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r Cynllun:

### 4.1. Adnoddau

Mae angen adnoddau ychwanegol er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir ar gyfer nifer o'r blaenoriaethau gwella o fewn y cynllun. Heb yr adnodd mae'n bosibl na fydd modd i ni gyflawni'r hyn a nodir.

Ar hyn o bryd cynigir bod yr holl flaenoriaethau gwella yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r cynllun, yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w hariannu, wedi iddynt ystyried pob achos busnes unigol. Disgwylir i hyn ddigwydd cyn gynted ag y bo'n bosibl.

### 4.2. Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Ddogfen Ymgynghorol blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 yn ystod Rhagfyr 2017 ac Ionawr 2018.

Darparwyd cyfleoedd priodol i unigolion a grwpiau diddordeb gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur oedd ar gael ar wefan y Cyngor neu gopïau papur oedd ar gael yn Siopau Gwynedd, Llyfrgelloedd a Chanolfannau Hamdden. Yn ogystal, cysylltwyd gyda mudiadau'r trydydd sector ynghyd â mudiadau sy'n cynrychioli nodweddion gwarchodedig cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg.

Derbyniwyd cyfanswm o 197 o ymatebion i'r holiadur gydag adborth cadarnhaol a sylwadau adeiladol ar y cyfan. Ceir crynodeb o'r prif negeseuon isod:

- Derbyniwyd nifer o sylwadau yn cefnogi ynglŷn â'r iaith Gymraeg gan gynnwys yr angen i'r Cyngor barhau i flaenoriaethu'r Gymraeg.
- Ar y llaw arall, cwestiynwyd y flaenoriaeth a roddir i'r iaith gan nifer a'r costau cysylltiedig gan nodi'r angen i ddefnyddio'r arian ar feysydd eraill - ee. creu swyddi, gwasanaethau plant.
- Awgrymwyd fod angen codi cyflogau gofalwyr cartref / gweithwyr yn y diwydiant gofal / cynnig cyflogau ar 'raddfa gyflog byw' gan wella'r hyfforddiant a hyrwyddo llwybrau gyrfa o fewn y maes.
- Nodwyd yr angen i gadw canolfannau gwybodaeth i ymwelwyr a thoiledau cyhoeddus ar agor fel eu bod ar gael i ymwelwyr a phreswylwyr.

- Cytunwyd gyda'r angen i gael mwy o swyddi yng Ngwynedd - yn werth uchel ac fel arall, ac yn rhai llawn amser a pharhaol nid tymhorol.
- Cwestiynwyd costau staff ac aelodau etholedig gan awgrymu'r angen i leihau'r cyflogau a'r costau.

Nodir bod canlyniadau'r ymgynghoriad wedi bwydo i mewn i'r broses o lunio'r cynllun ond byddwn hefyd yn ystyried y negeseuon ehangach a dderbyniwyd. Bydd dadansoddiad o'r canlyniadau i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi yn yr wythnosau nesaf.

4.3. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)(2015)**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant.

Rydym wedi ymgynghori gyda'r Aelodau Etholedig a'r cyhoedd ynghylch y materion sy'n effeithio ar eu llesiant fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynllun gan hefyd ddadansoddi canlyniadau Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Cyhoeddwyd y gyfres gyntaf o amcanion llesiant ar gyfer y Cyngor fel rhan Gynllun Strategol y Cyngor 2017-18 gyda 29 ohonynt mewn nifer. Yn ogystal â bod yn ymestyniad o Gynllun Strategol 2013-17 roedd yn pontio'r cyfnod rhwng y cynllun hwnnw a Chynllun y Cyngor 2018-23.

Fodd bynnag, pan gyflwynwyd y gyfres wreiddiol o amcanion llesiant cydnabuwyd y byddai angen adolygu'r amcanion yn y dyfodol agos gan ystyried materion megis canlyniadau Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn.

Awgrymir ei bod yn addas ac amserol i adolygu'r amcanion wrth ystyried cynnwys Cynllun y Cyngor 2018-23. Rydym wedi adolygu a gwerthuso ein hamcanion llesiant wrth lunio'r cynllun newydd gan geisio sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg wrth ymgynghori ac yn yr Asesiad Llesiant. Nodir hefyd bod y mwyafrif o'r amcanion llesiant blaenorol yn cael eu cyfarch o fewn y gyfres newydd. Ceir rhestr o'r amcanion llesiant yn y Datganiad Llesiant mewn atodiad o fewn y cynllun.

4.4. **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 3.**

Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd asesiad effaith Cydraddoldeb llawn yn cael ei wneud ar bob cynllun unigol fydd yn deillio o'r blaenoriaethau gwella.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar y 1af o Fawrth 2018.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1. Bu cyfle i holl Aelodau Etholedig y Cyngor gymryd rhan mewn 2 sesiwn gweithdy er mwyn lleisio eu barn ar yr hyn ddylid eu cynnwys fel blaenoriaethau yn ystod haf 2017.

6.2. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Ddogfen Ymgynghorol ar flaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 am gyfnod o 6 wythnos ar ddiwedd 2017.

6.3. **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol ar gyfer gosod cyfeiriad y Cyngor am y cyfnod nesaf yn dilyn etholiad Mis Mai 2017. Fe nodir yn yr adroddiad ei fod ag oblygiadau statudol penodol i'w cyfarch dan Fesur Llywodraeth Leol( Cymru) 2009 ac yn ddiweddarach a bellach yn fwy arwyddocaol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r gwaith hefyd wedi bod yn destun trafodaeth ac ymgynghori eang. Mae'n bwysig fod y Cabinet wrth ddod i gasgliad ar yr argymhelliad yn talu sylw at yr agweddau yma ynghyd a'r asesiadau perthnasol a gyflwynir neu cyfeirir atynt.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Mae Cynllun y Cyngor yn strategaeth allweddol, sy'n gosod allan yr hyn y mae Cyngor Gwynedd am anelu i'w wneud dros y pum mlynedd nesaf.

Mae tebygolrwydd y bydd gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt, tra mae priodoldeb ariannol yn golygu y bydd rhaid sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi cael ei adnabod ar gyfer unrhyw ymrwymiad i wario. Felly, fel mae Rhan 4.1 o'r adroddiad yn nodi, bydd raid i'r Cabinet ystyried pob achos busnes yn unigol cyn cytuno i'w ariannu.

Roedd Cronfa yn ei le ar gyfer ariannu blaenoriaethau'r Cynllun Strategol blaenorol, a bydd y Gronfa yma'n parhau ar gyfer y Cynllun newydd. Fodd bynnag, mae cyfran o'r Gronfa yma eisoes wedi cael ei ymrwymo, sy'n golygu y byddaf yn diweddaru'r Cabinet ar sefyllfa ddiweddaraf y Gronfa berthnasol pan fydd y cynlluniau busnes unigol yn cael eu hystyried.

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Cynllun y Cyngor 2018-23

**Atodiad 2 –** Asesiad Cydraddoldeb